# Cludo arfau, bwledi a thanwydd ar gyfer cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'ch gallu i gludo arfau, bwledi a thanwydd i'w defnyddio ar gynyrchiadau gan gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a'r protocolau.

Mae'n ymwneud â chynllunio llwybr, cysylltu gyda'r awdurdodau priodol, llwytho a dadlwytho arfau, bwledi a thanwydd gan gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a'r protocolau a sicrhau eu bod nhw wedi'u cadw'n ddiogel ac yn briodol ar y safle.

Mae'r safon hon yr arbennig ar gyfer goruchwylwyr Arfau a chydlynwyr Arfau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio bod yr holl ddogfennau'n gyflawn ac yn gywir
2. cysylltu gyda'r awdurdodau a'r mudiadau priodol sy'n ymwneud â chludo arfau, bwledi a thanwydd
3. cynllunio llwybr cludo sy'n sicrhau bod yr eitemau'n cyrraedd yn ddiogel ac yn brydlon gan gydymffurfio gyda'r protocoliau y cytunwyd arnyn nhw
4. gwirio bod yr arfau, y bwledi a'r tanwydd wedi'u gosod, eu storio a'u dadlwytho gan gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a'r protocolau
5. gofalu am ddiogelwch y cast a'r criw bob amser wrth gludo'r arfau, y bwledi a'r tanwydd
6. gwirio bod y gyrwyr a'r unigolion sy'n cludo'r arfau, y bwledi a'r tanwydd yn meddu ar y dogfennau a'r tystysgrifau priodol sy'n profi eu bod yn gymwys
7. gwirio bod y lefelau priodol o yswiriant ar waith a bod modd cyflwyno dogfennau i'r perwyl hwn pan fo gofyn amdanyn nhw
8. dwyn i ystyriaeth yr holl agweddau asesu a rheoli risgiau a darparu dogfennau i'r perwyl hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y ddeddfwriaeth a'r protocoliau ar gyfer cludo'r arfau, y bwledi a'r tanwydd
2. sut i gynllunio llwybr priodol, gan fod yn ymwybodol o'r dulliau cludo gofynnol ar gyfer gwahanol arfau, bwledi a thanwydd
3. yr awdurdodau priodol y dylech chi gysylltu gyda nhw
4. sut i baratoi dogfennau ar gyfer cludo'r arfau, y bwledi a'r tanwydd
5. sut i bacio a llwytho cerbydau cludo'n ddiogel
6. y protocolau ar gyfer sicrhau caiff yr arfau, y bwledi a'r tanwydd eu cludo gan gydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth a'r protocolau
7. sut i ymchwilio unrhyw ofynion cenedlaethol neu ryngwladol allai effeithio ar gludo'r arfau, y bwledi a'r tanwydd yn ddiogel
8. sut i adnabod y bobl gymwys sy'n gallu cyflawni'r dasg hon a darparu dogfennau i'r perwyl hwn
9. yr yswiriant a'r trwyddedau priodol sydd angen eu rhoi ar waith i gludo'r arfau, y bwledi a'r tanwydd

Cludo arfau, bwledi a thanwydd ar gyfer cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2022 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2026 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSAR4 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt y Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Cyflenwi Arfau ar gyfer Cynyrchiadau |
| **Geiriau Allweddol** | cludo; arfau; bwledi; tanwydd; diogelwch; |